



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

MAPIO'R GWAGLE:

Sut y gellir defnyddio technolegau digidol newydd i archwilio naratifau absenoldeb

Adam Clarke a Victoria Bennett: Cynhyrchydd ac Awdur Creadigol Digidol,
[The Common People](#)

Tirwedd o naratifau, naturiol a dynol, yw Ynysoedd Erch. Mae'n newid yn barhaus, yn cael ei llunio a'i hail-lunio gan amser a natur, yn ymestyn yn bell yn ôl mewn hanes, yn cael ei bygwth gan erydiad cyson yr ymylon. Mae newid hinsawdd yn effeithio ar ddyfodol Ynysoedd Erch, ond hefyd ar y naratif dynol o'r gorffennol rydym i gyd yn ei rannu.



1. Birsay: braslun Realiti Estynedig (2018)

Mae'r newidiadau hyn yn bygwth oddeutu hanner y 3,000 o safleoedd ar Ynysoedd Erch. Mae rhai'n cael eu golchi i ffwrdd eisoes. Ers 1970, mae'r traethau wedi erydu ddwywaith mor gyflym ag yn y ganrif flaenorol. Mae eraill a fu unwaith yn sefydlog nawr yn crebachu.

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

Mae glawogydd, sy'n disgyn yn drymach ac amlach, yn toddi'r cramennau o bridd a'r trwch o dywod sy'n amddiffyn olion gwareiddiadau. Yn 2018, cyhoeddodd Historic Environment Scotland (HES) rybuddion coch ar gyfer bron un rhan o bump o'i safleoedd a rhybuddion melyn, yn dynodi risg uchel, ar gyfer 70% o safleoedd eraill, ac yn 2019 Ynysydd Erch oedd y safle Treftadaeth Byd diwylliannol cyntaf i fod yn destun asesiad Mynegai Bregusrwydd Hinsawdd (CVI).

Mae **Mapio'r Gwagle** yn ceisio ffordd o ymdrin â'r gofid ecolegol neu 'solastalgia' a wynebwn wrth i'r blaned newid yn gyflym. Wrth i ni brofi cyflwr o golled ecolegol ddatblygol barhaus, gofynnwn: sut y gallwn ymdopi â'r newidiadau hyn? Sut y gallwn oresgyn y teimlad o golled, dicter, anobaith, diymadferthedd a thrallod? Sut y gallwn ymateb mewn ffordd bwrpasol, ystyrlon?

Gan ddefnyddio Realiti Rhithwir-Realiti Estynedig ac ysgrifennu creadigol, mae Mapio'r Gwagle yn edrych ar sut y caiff ein tirweddau naratif a phersonol eu siapio gan "olion enigmatig pobl eraill", gan ofyn: beth yw'r olion a adawn ar ein hôl; sut mae cipio'r hyn nad yw'n bresennol mwyach – olion y rheiny a aeth o'n blaenau; a sut mae gollwng gafael – ar y gorffennol, a'r naratif a ddychmygwn ar gyfer ein dyfodol?



3. Ffynnon disgyrchiant Realiti Rhithwir Rwnig (2018)

Bywgraffiad

Bardd sy'n cymryd diddordeb arbennig yn y ffordd y mae naratifau personol yn caledu o gwmpas tirwedd emosiynol yw Victoria Bennett. Artist sy'n creu storïau mewn ffordd weledol ond haniaethol iawn yw Adam Clarke. Mae'n cael ei ddenu gan ddulliau gwneud-marciau gweledol newydd ac anchwiliedig ac mae wrth ei fodd yn archwilio posibiliadau storïol technolegau newydd. Yn 2018 ymgymerasant â phreswylid hunangyfeiriedig ar Ynysoedd Erch, o'r enw "trace", gyda chymorth Cynllun Bwrsariau 2018 a-n. Buont yn cydweithio dros gyfnod maith ar nifer o brosiectau treftadaeth ddigidol arloesol. Hefyd maent hwy'n digwydd bod yn briod.